

Cofnodion y **Pwyllgor Amwynderau** a gynhaliwyd yn  
**Neuadd y Dref, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos Lun, 8 Gorffennaf 2019 am 7:00p.m.**

**PRESENNOL:** Y Cynghorwyr Jim Bryan, Gavin Harris, Menna Jones, Anne Roberts,  
Dave Snape, Heather Williams ac Emrys Wynne.

**13. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd Keiran Allsopp-Robson,.

**14. DATGAN BUDDIANNAU**

Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

**15. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

**PENDERFYNWYD:** *cadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Amwynderau a gynhaliwyd ar 8 Mehefin 2019 yn gywir.*

**16. MATERION YN CODI**

Cyfeiriodd y Cynghorydd Emrys Wynne at neges e-bost a dderbyniwyd gan Adran Gyfreithiol Cyngor Sir Ddinbych yn cadarnhau bod y craen y tu allan i'r Ganolfan Grefft yn eiddo i'r awdurdod lleol. Cyfeiriodd aelodau at broblemau gyda rhai wiciau yn y cynwysyddion basgedi crog, ac esboniodd y Clerc bod y contractwr a ddarparodd y bodau a'r contractwr dyfrio yn gweithio gyda'i gilydd i roi wiciau newydd yn y basgedi crog wedi'u heffeithio.

**17. ADOLYGU MEINCIAU CYHOEDDUS YN RHUTHUN**

Esboniodd y Cynghorydd Gavin Harris ei fod wedi trefnu cael mapiau Arolwg Ordnans tref Rhuthun, a gofynnodd i'r aelodau nodi ar y map pa ardal o'r dref y byddant yn edrych arni a thynnu lluniau'r meinciau a'r biniau yn yr ardaloedd hynny, i'w hanfon at y Clerc a'u hystyried yng nghyfarfod mis Medi. Cyfeiriodd y Clerc at fin rhydd yng Nghae Seren a dynnwyd ymaith er diogelwch, a gofynnodd a oedd yr aelodau'n fodlon i'r Cyngor Tref brynu bin newydd yn ei le.  
**PENDERFYNWYD:** *cynnal adolygiad meinciau a biniau, a phrynu bin newydd gyda fflapiau ar gyfer Cae Seren.*

**18. ARDAL CHWARAE'R CAEAU CHWARAE COFFA**

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried neges gan Andy Edwards, Cymdeithas Caeau Chwarae Coffa Rhuthun, ynghylch dyfodol yr ardal chwarae. Dywedodd y Clerc y byddai'n gwneud ymholiadau ynghylch pryd y byddai'r astudiaeth ddichonoldeb yn cael ei chynnal.  
**PENDERFYNWYD:** *aros am wybodaeth ynghylch yr astudiaeth ddichonoldeb.*

**19. DYDDIAD BEIRNIADU'R ARDDANGOSFEYDD BLODAU**

Gofynnwyd i'r aelodau ddewis amser a dyddiad a dethol aelodau i feirniadu arddangosfeydd blodau busnesau canol y dref. Cynigiwyd bod y Maer a'r Cynghorydd Menna Jones ac Anne Roberts yn beirniadu tuag at ddiwedd Gorffennaf.  
**PENDERFYNWYD:** *y byddai'r Maer a'r Cynghorydd Menna Jones ac Anne Roberts yn beirniadu tuag at ddiwedd Gorffennaf.*

**20. TÎM TREF TACLUS**

Adroddodd y Cadeirydd y byddai'r Tîm yn cynnal ei sesiwn nesaf ddydd Sadwrn, 13 Gorffennaf 2019.  
**PENDERFYNWYD:** *nodi dyddiad y sesiwn Tîm Tref Taclus nesaf.*

**21. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

**PENDERFYNWYD:** *mai dyddiad y cyfarfod nesaf y Pwyllgor fyddai nos Lun, 9 Medi 2019 am 7:00pm.*